Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Lexham Green**

**Cartref Gorffwys Lexham Green**
**50 Ffordd Brunswick**
**Bwcle**
**CH7 2EP**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

22 Mawrth 2022

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Lexham Green

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Lexham Green Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ar hyn o bryd. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio’r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio’r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y bobl sy'n byw yno orau. Mae'r hyfforddiant staff, y polisïau a'r gweithdrefnau, arferion rheoli heintiau, asesiadau risg a chynlluniau unigol i gyd yn gwella diogelwch a llesiant y bobl yn y cartref. Dywed y bobl eu bod yn hapus yn byw yn y cartref ac mae gweithwyr proffesiynol yn dweud bod y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth geisio cyngor iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae gan y bobl ddewis ac annibyniaeth ynghylch sut y maent yn treulio eu diwrnod, mae'r gweithgareddau'n hwyl ac yn amrywiol ac mae'r bwydlenni'n cynnig dewis o brydau maethlon.

Mae'r rheolwr, sef yr unigolyn cyfrifol, yn y cartref bob dydd yn ystod yr wythnos waith ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod ganddo oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth. Mae archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaeth yn helpu i gynnal a chadw'r adeilad ac yn sicrhau bod gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud. Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd a'r arolygon boddhad yn monitro boddhad parhaus y bobl â'r gwasanaeth ac yn amlygu unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo llesiant pobl; mae cyfarpar yno i’w cynorthwyo gyda'u symudedd ac mae’n darparu lle sydd yn lân, yn gynnes ac yn olau. Mae yna le awyr agored a seddi o fewn gardd ddiogel. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn mwynhau eu hamgylchedd a'r staff gofal sy'n eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan bobl ddewis a rheolaeth ynghylch y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn yn y cartref. Maent yn dewis pryd maent am godi ac am fynd i'r gwely, a pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a lle maent am dreulio eu diwrnod. Mae’r gweithgareddau’n hwyl ac yn amrywiol, gan roi cyfle i ymarfer corff, bod yn greadigol gyda chrefftau, dawnsio i gerddoriaeth ac ymarfer sgiliau coginio. Mae'r bobl yn mwynhau prydau o fwydlen amrywiol sy'n cynnig opsiynau gwahanol a darperir ar gyfer deietau arbenigol. Mae cynlluniau personol yn cynnwys proffiliau un dudalen sy'n rhannu hanes pobl, eu hoff bethau a'u cas bethau, eu nodau a'u dyheadau fel y gellir teilwra gofal sy’n addas ar eu cyfer. Mae'r staff yn barchus gyfarwydd â phreswylwyr y cartref gan fod llawer wedi gweithio yno ers amser maith. Siaradant gyda charedigrwydd ac amynedd. Mae'r bobl yn hapus gyda'r staff gofal sy’n eu cynorthwyo ac maent yn mwynhau byw yn y cartref.

Gofelir yn dda am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol ac iechyd yn brydlon pan fo angen. Mae nyrsys ardal yn ymweld â'r cartref ac yn dweud wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir. Mae cynlluniau unigol y bobl yn cael eu hadolygu ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu, felly mae staff yn ymwybodol bob amser o unrhyw newidiadau i anghenion y bobl. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol yn cadw'r bobl yn ddiogel yn ystod pandemig y Coronafeirws, mae mygydau'n cael eu gwisgo, mae hylif diheintio dwylo wedi'i leoli o amgylch y cartref a threfnir ymweliadau drwy apwyntiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y rhan fwyaf o'r staff hyfforddiant cyfredol mewn diogelu sydd, ynghyd â pholisïau'r gwasanaeth, yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae cyfarfodydd aml rhwng uwch staff a staff gofal yn annog trafodaeth am arferion ac yn helpu ymhellach i sicrhau bod pobl yn ddiogel. Mae awdurdodau allanol perthnasol, sy'n helpu'r gwasanaeth i gefnogi mesurau diogelu pobl, yn cael eu cynnwys yn brydlon lle bo'n briodol. Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud er lles yr unigolyn yn unig.

Mae'r llety a ddarperir yn gynnes, yn lân ac yn olau. Mae angen gwneud rhywfaint o waith ailaddurno mewn rhai ystafelloedd, ond mae'r unigolyn cyfrifol wedi cynnwys hyn yn ei gynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae cymhorthion o gwmpas y cartref yn helpu pobl i symud a gall pobl ddewis lle i dreulio eu hamser, gydag amrywiaeth o ardaloedd cymunol a gardd ar gael iddynt. Mae'r bobl yn hapus gyda'u hamgylchoedd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt ac sy'n well ganddynt. Gwelsom gynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu gyda mewnbwn gan yr unigolyn dan sylw, teuluoedd ac asiantaethau proffesiynol. Mae dogfennau 'proffil un dudalen' personol yn manylu ar hoffterau pobl ar bynciau megis sut maent yn dymuno cael eu cyfarch a sut maent yn dymuno cyflawni eu harferion dyddiol. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu gofal na gweithgareddau yn y Gymraeg, nid yw'r dogfennau yn ddwyieithog ac ychydig o arwyddion Cymraeg sydd o gwmpas y cartref; ar hyn o bryd nid oes unrhyw bobl sydd a'r iaith Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn byw yn y gwasanaeth.

Mwynheir gweithgareddau bron bob dydd ac mae ffotograffau a chofnodion yn dangos bod y rhain yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau hwyliog. Gwelsom fod pobl wedi gwneud bara a chawl, yn trochi mefus mewn siocled i ddathlu Dydd San Ffolant ac yn gwneud cardiau dathlu. Mae pobl yn mwynhau sesiynau maldodi, cerddoriaeth a dawnsio a chrefftau creadigol. Mae pobl wedi cynnal cysylltiadau cymdeithasol gyda ffrindiau a theulu trwy gydol pandemig y Coronafeirws trwy dechnoleg ddigidol a newidiadau i'r amgylchedd i ganiatáu ar gyfer ymweliadau diogel.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn cymryd rhan mewn adolygiadau, mae'r gwasanaeth yn cynnal 'Diwrnodau Cynllun Gofal Agored' y gall pobl a'u teuluoedd eu mynychu er mwyn trafod eu cynnydd a'u gofal. Caiff y canlyniadau eu dogfennu fel rhan o adolygiad yr unigolyn. Gwnaethom siarad â phobl a ddywedodd eu bod yn mwynhau byw yn y cartref, eu bod yn gyfforddus ac *'mae'r bwyd bob amser yn dda'*. Gwelsom fod tri opsiwn ar gael amser cinio ar y diwrnod y gwnaethom ymweld ac mae'r cofnodion yn dangos bod hyn yn arferol. Mae'r staff gofal yn barchus o gyfarwydd â'r bobl y maent yn eu cynorthwyo gan fod rhai wedi gweithio yn y cartref ers amser maith.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae pobl yn cael cymorth i gael mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal eu hiechyd, datblygiad a llesiant parhaus. Gwelsom sut mae'r rheolwr yn helpu un unigolyn i gyrraedd ei nodau gan weithio ochr yn ochr â'r gweithiwr cymdeithasol. Gwneir apwyntiadau gyda gweithwyr proffesiynol allanol, megis meddygon, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol a nyrsys ardal yn brydlon pan fo angen. Roedd gweithiwr proffesiynol yn ymweld â'r cartref yn ystod ein hymweliad, a dywedodd wrthym ei fod yn mwynhau cyfathrebu da â'r staff gofal yn y cartref, a chadarnhawyd bod y staff yn ceisio cyngor yn brydlon pan fo angen; gwrandewir ar gyfarwyddiadau gofal iechyd ac fe'u cyflawnir i helpu pobl i gynnal iechyd da. Gwelsom sut mae staff gofal yn gwrando ar unigolion ac yn newid dulliau gofal er mwyn gwneud pobl yn fwy cyfforddus a sefydlog. Mae pobl yn mwynhau pethau sy'n bwysig iddyn nhw, fel bwyd tecawê, teganau anifeiliaid anwes a doliau babanod. Mae pawb yn cael eu trin fel unigolion, gyda'u dewisiadau a'u dymuniadau yn cael eu parchu.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli risgiau o ran heintiau yn dda. Mae cyfarwyddiadau i'r staff a'r ymwelwyr yn cael eu dangos mewn lleoedd amlwg, mae'r

staff yn gwisgo masgiau wyneb, ac mae hylif diheintio dwylo wedi’i leoli o gwmpas y cartref at ddefnydd pawb. Oherwydd cyfyngiadau pandemig y Coronafeirws, mae darparwr y gwasanaeth wedi newid y cyntedd drwy rannu'r ardal â wal wydr. Mae microffonau wedi cael eu gosod yn y wal fel bod pobl yn gallu gweld a chlywed ei gilydd heb y risg o draws-heintio. Mae gan bobl ddewis ynghylch sut maent am weld eu perthnasau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth y bobl yn cael eu darparu mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau ac offer sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Er bod peth o'r addurniadau mewnol ychydig yn hen ffasiwn, ac mae angen  llenni newydd mewn un ystafell, gwelsom fod yr ystafelloedd wedi'u haddurno'n rhesymol, yn lân ac yn olau. Mae rhai ystafelloedd eisoes wedi cael lloriau newydd a dillad gwely a chlustogau newydd. Amlygodd archwiliad diweddar fwy o ardaloedd ar gyfer ailaddurno a lloriau newydd. Mae'r rheolwr yn gweithio yn unol â chynllun ar gyfer blaenoriaethu ac ymgymryd â'r gwaith hwn. Gwelsom fod gan bobl gymhorthion i wella eu symudedd, defnyddir lifft cadair i gyrraedd y llawr cyntaf ac mae rheiliau gafael i hybu hyder wrth gerdded. Mae tair lolfa a dwy ardal fwyta felly gall pobl ddewis lle hoffent eistedd. Mae yna hefyd le awyr agored mewn gardd heulog i bobl eistedd allan ac mae cynlluniau ar gyfer eleni yn cynnwys gwneud gwelliannau pellach i'r ardal hon.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom asesiadau risg generig ar gyfer y cartref ac asesiadau risg unigol ar gyfer amrywiol weithgareddau a gyflawnir gan bob unigolyn. Caiff achosion o gwympo eu monitro a'u gwerthuso i nodi themâu a gwneud rheoli risg yn fwy effeithiol. Caiff unrhyw achosion posibl eu harchwilio a gwneir newidiadau lle bo angen. Mae cofnodion yn dangos bod trefniadau ar waith i sicrhau defnydd diogel o drydan a storio dŵr poeth. Mae gwiriadau ar gyfer offer gwresogi a thrydanol yn cael eu harchebu.  Gwelsom fesurau diogelwch tân da ar waith, megis profion offer tân a golau rheolaidd, hyfforddiant staff a driliau tân rheolaidd. Mae gan y cartref weithiwr  cynnal a chadw sy'n ymweld yn  wythnosol a gwelsom fod cofnod yn cael ei gadw o 'dasgau i'w gwneud' a'r cynnydd a wnaed. Mae'r cartref wedi ennill 'Tystysgrif Cyflawniad Amgylcheddol' i gydnabod ei raglen lleihau effaith amgylcheddol ar gyfer 2021 - 2022 gan Seven Ways Environmental Service Ltd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Y rheolwr hefyd yw'r unigolyn cyfrifol ar gyfer y cartref ac mae ganddo gyfrifoldebau i sicrhau bod ganddo oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth. Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n helpu staff i gyflawni arferion gwaith ac amgylchedd diogel. Mae staff yn darparu cadarnhad ysgrifenedig pan fyddant yn darllen y rhain. Mae archwiliadau o'r cartref yn nodi meysydd i'w gwella er nad yw'r rhain yn dangos pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar hyn o bryd. Mae'r rheolwr / unigolyn cyfrifol yn cynnal adolygiadau sicrhau ansawdd sy'n casglu barn pobl am y gwasanaeth. Mae'r broses sicrhau ansawdd yn gwerthuso datblygiadau yn ystod y flwyddyn ac yn cloi gyda 'meysydd y mae angen i ni eu gwella neu eu datblygu'. Mae hyn yn dangos gwasanaeth sy'n adlewyrchu ac yn gwella. Mae'r rheolwr / unigolyn cyfrifol yn agored i adborth ac mae'n trefnu cyfarfodydd aml gyda'i uwch staff i rannu syniadau, nodau ac amcanion.

Mae unigolion yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth, cymhwysedd, sgiliau a chymwysterau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen. Mae cofnodion staff yn dangos gweithdrefnau sefydlu a hyfforddi cadarn. Mae staff gofal yn gofyn am gyngor a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol, lle bo'n briodol ac yn rhannu hyn ag eraill trwy gyfarfodydd a logiau cyfathrebu. Mae staff yn cael cymorth gan eu rheolwr, gyda chyfleoedd rheolaidd i gyfarfod a thrafod arferion. Roedd y rotâu staff a'n harsylwadau ar ddiwrnod ein hymweliad yn dangos bod digon o staff i ddiwallu anghenion y bobl yn y cartref. Mae recriwtio staff yn ddiogel a gwiriadau ffitrwydd priodol yn cael eu cynnal. Mae rhai staff wedi gweithio yn y cartref ers blynyddoedd lawer ac maent yn gyfarwydd iawn â'r bobl sy'n byw yno.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y darparwr gwasanaeth oruchwyliaeth o'r trefniadau ariannol a buddsoddiadau yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi pobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cartref yn lân ac yn gyfforddus gyda'r rhan fwyaf o'r llenni a deunyddiau a'r dodrefn yn addas i'r bobl yn y cartref. Mae mwy o welliannau wedi'u cynllunio, ac mae gwaith a gwblhawyd wedi gwneud gwelliant gweladwy i'r amgylchedd a llesiant cyffredinol pobl.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi